# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR**

Dyddiad ac Amser

**1.30 y.h., DYDD IAU, 1AF MAI, 2025**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Lleoliad

**Hybrid - Siambr Dafydd Orwig, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Mercher, 23 Ebrill 2025)

**Ian Jones**
**Pennaeth Democratiaeth**

www.gwynedd.llyw.cymru

**DYDD MERCHER, 23 EBRILL 2025**

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 1 MAI 2025**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod aml-leoliad o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.30 y.h., DYDD IAU, 1AF MAI, 2025 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, CAERNARFON LL55 1SH / RHITHIOL AR ZOOM**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



Pennaeth Democratiaeth

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol – Siambr Hywel Dda
Grwp Llafur / Rhydfrydol – Ystafell Ogwen

# RHAGLEN

**1. CADEIRYDD**

Penodi Cadeirydd ar gyfer 2025/26.

**2. IS-GADEIRYDD**

Penodi Is-gadeirydd ar gyfer 2025/26.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. COFNODION** 7 - 28

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 6 Mawrth, 2025 fel rhai cywir.

**5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**6. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**7. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**8. CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau gan aelodau etholedig, y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.18 o'r Cyfansoddiad.

**9. ADOLYGIAD BLYNYDDOL O GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR** 29 - 33

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Democratiaeth.

**10. PENODI CADEIRYDD I'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH 2025/26**

Penodi Cadeirydd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar gyfer 2025/26.

[Yn unol â gofynion Adran 14 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, y Cyngor llawn sydd i benodi Cadeirydd y Pwyllgor

Gwasanaethau Democratiaeth ac ni all benodi aelod o grŵp gwleidyddol sy’n cael ei gynrychioli ar y weithrediaeth.]

**11. PENODI AELODAU I'R PWYLLGOR SAFONAU - ARGYMHELLION PANEL CYFWELD** 34 - 35

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro.

**12. DIWYGIO Y CYFANSODDIAD** 36 - 39

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro.

**13. PENDERFYNIAD BRYS CABINET** 40

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro.

**14. RHYBUDDION O GYNNIG**

**(A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD ELFED WYN AP ELWYN**

Yn unol â’r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd dan Adran 4.19 o’r Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn yn cynnig fel a ganlyn:-

**Mae’r Cyngor yn galw ar Lywodraeth San Steffan i ddatganoli grymoedd dros gronfeydd a’r rhwydwaith dŵr yng Nghymru, fydd yn caniatáu i Gymru elwa o un o’i hadnoddau pwysicaf.**

**(B) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD BECA BROWN**

Yn unol â’r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd dan Adran 4.19 o’r Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Beca Brown yn cynnig fel a ganlyn:-

**Mae 1 ymhob 4 dynes ac 1 ymhob 6 dyn wedi dioddef camdriniaeth rhywiol yn ystod eu plentyndod, a gall y ffigwr yna fod yn uwch fyth.**

**Nid yn unig bod y profiadau yma yn erchyll iddynt ar y pryd, ond maent yn gorfod byw gydag effeithiau’r troseddau ofnadwy yma gydol eu hoes.**

**Mae dioddefwyr camdriniaeth rhywiol yn dweud yn gyson nad oes digon o gefnogaeth ar gael iddynt, ac nad oes ymwybyddiaeth ddigonol o’r trawma maent yn ei gario bob dydd, am byth.**

**Mae Mai 1af yn ddiwrnod blynyddol i gofio am y dioddefwyr; i godi ymwybyddiaeth o’r drosedd ddychrynllyd yma, ac i’n**

**hatgoffa y gall camdriniaeth rhywiol ddigwydd i unrhyw blentyn, mewn unrhyw gymuned. Nid yw camdriniaeth rhywiol yn adnabod gwahaniaethau diwylliannol, cymdeithasol, ieithyddol, crefyddol, rhywedd na hil. Gall ddigwydd yn unrhyw le, i unrhyw un.**

**Not My Shame yw'r grŵp ymgyrchu sydd yn trefnu'r digwyddiad blynyddol yma, ac mae'n cynnal munud o dawelwch ar y dyddiad hwn bob blwyddyn i gofio poen dioddefwyr camdriniaeth rhywiol drwy'r byd.**

**Galwn ar Gyngor Gwynedd i adnabod y dyddiad yma bob blwyddyn o hyn allan, ac i'w fabwysiadu'n ddiwrnod i gofio am ddioddefwyr. Galwn ar y Cyngor i hedfan baner yr ymgyrch uwch ei bencadlys ar Fai 1af bob blwyddyn er mwyn datgan yn glir nad cywilydd y dioddefwr yw camdriniaeth rhywiol, ond cywilydd y troseddwr. Galwn ar Gyngor Gwynedd i dynnu sylw cyhoeddus ar Fai 1af bob blwyddyn at y gefnogaeth sydd ar gael i ddioddefwyr, ac i esbonio wrth y cyhoedd sut a ble y gallent adrodd am gamdriniaeth rhywiol neu am bryderon diogelwch plant.**

**(C) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD GWYNFOR OWEN**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd dan Adran 4.19 o'r Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Gwynfor Owen yn cynnig fel a ganlyn:-

**Mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn wynebu colled o hyd at £65m oherwydd y cynnydd i yswiriant gwladol a gyhoeddwyd gan y llywodraeth Lafur yn San Steffan.**

**Unwaith eto, bydd Cynghorau Cymru yn gweld colled llwyr wrth i'r llywodraeth ddefnyddio'r fformiwla Barnett i benderfynu faint o arian sy'n cael ei roi i wledydd datganoledig. Mae'r fformiwla Barnett yn seiliedig ar faint y boblogaeth yn hytrach nag angen.**

**Mae'n annheg na fydd gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn derbyn yr arian llawn am y cynnydd. Mae hyn yn enghraifft arall o sut mae Cymru dan anfantais llwyr o ganlyniad i lywodraeth Lafur yn y Senedd yng Nghymru ac yn San Steffan.**

**Gan ein bod yn parhau i ddisgwyl am fanylion gan y ddwy lywodraeth nid oes modd cyfrifo union ffigwr ar hyn o bryd, ond mae Cyngor Gwynedd yn debygol o fod ar eu colled mewn swm oddeutu £1m, sy'n swm rydym wedi gorfod ei throsglwyddo i'n trethdalwyr.**

**Mae Cyngor Gwynedd yn galw felly ar Lywodraeth Cymru i fynnu ffordd decach o ariannu ein gwlad gan eu penaethiaid yn Llundain.**

## (D) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD ELIN HYWEL

Yn unol â’r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd dan Adran 4.19 o’r Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Elin Hywel yn cynnig fel a ganlyn:-

1. **Mae’r Cyngor hwn yn nodi effeithiau anghymesur a chronnus polisïau llymder ar drigolion fwyaf bregus ein cymdeithas gan lywodraethau dilynol y DU - boed yn llywodraethau Ceidwadol neu Lafur.**
2. **Yn dilyn cyhoeddiad diweddar Lywodraeth y DU o doriadau pellach i fudd-daliadau fydd yn cyfansymu i £5 biliwn, cydnabyddir y Cyngor hwn mai parhad a chynnydd i bolisïau llymder yw’r toriadau hyn. Gyda chyfran o 18.1% o boblogaeth Gwynedd yn cael eu hystyried yn anabl, bydd pobl Gwynedd yn cael eu taro’n arbennig o galed gan y toriadau. Ym mhellach, mae pobl a ystyrir yn anabl yng Ngwynedd yn llai tebygol o fod mewn cyflogaeth, gyda dim ond 50.5% mewn swydd â thâl, ac felly maent yn fwy tebygol o ddibynnu ar fudd-daliadau fel eu hunig ffynhonnell incwm.**
3. **Noda’r Cyngor ein cyfrifoldeb cynyddol i liniaru effeithiau creulon polisïau llymder drwy wasanaethau’r Cyngor. Gwelwn gynnydd yn y galw am wasanaethau megis tai cymdeithasol, llety argyfwng a gofal cymdeithasol, a’r gost gynyddol ganlyniadol o gynnal y gwasanaethu hyn. Cydnabyddwn y pwysau a roddir hyn ar gyllidebau'r Cyngor.**
4. **Er mwyn trigolion Gwynedd, geilw’r Cyngor Gwynedd ar Lywodraeth Cymru i sefyll i fyny dros Gymru a mynnu bod eu cyd-aelodau Llafur yn Llywodraeth y DU yn gwneud tro bedol ar eu cynlluniau i dorri budd-daliadau.**
5. **Er mwyn sicrhau parch ac urddas i bob un, geilw’r Cyngor Gwynedd ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gyllido budd-daliadau a gwasanaethau cymdeithasol yn ddigonol.**
6. **Er mwyn roi diwedd ar lymder yng Nghymru, mynnir y Cyngor hwn bod Llywodraeth Cymru yn galw ar Lywodraeth y DU i ddatganoli lles a budd-daliadau, ynghyd â’r holl liferi angenrheidiol i alluogi Llywodraeth Cymru i warchod, gofalu a chynnal ein cymdeithas.**

**CYFARFOD Y CYNGOR 6/3/25**

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Beca Roberts (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Ioan Thomas (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr:- Craig ab Iago, Menna Baines, Beca Brown, Stephen Churchman, Glyn Daniels, Elwyn Edwards, Elfed Wyn ap Elwyn, Alan Jones Evans, Gwilym Evans, Dylan Fernley, Delyth Lloyd Griffiths, Jina Gwyrfai, Louise Hughes, Medwyn Hughes, Iwan Huws, Nia Wyn Jeffreys, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Gwilym Jones, Gareth Tudor Jones, Huw Wyn Jones, June Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Llio Elenid Owen, Gareth Coj Parry, Nigel Pickavance, John Pughe, Rheinallt Puw, Arwyn Herald Roberts, Elfed P Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Paul Rowlinson, Dyfrig Siencyn, Peter Thomas, Menna Trenholme, Rob Triggs, Rhys Tudur, Hefin Underwood, Einir Wyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gruffydd Williams, Sasha Williams a Sian Williams.

**Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth), Carys Fôn Williams (Pennaeth Tai ac Eiddo), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Cyfrifeg a Phensiynau), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Sion Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Eurig Huw Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol), Erin Lloyd (Cyfreithiwr), Huw Elfed Roberts (Swyddog Gwasanaethau Etholiadol) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Anwen Davies, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Elin Hywel, Dafydd Meurig ac Angela Russell.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr, 2024 fel rhai cywir.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Swyddog Monitro fuddiant personol ar ran y prif swyddogion oedd yn bresennol gan fod yr adroddiad yn ymwneud â'u cyflogau.

'Roedd o'r farn bod gan y swyddogion fuddiant o sylwedd, ac ynghyd â'r ddau Gyfarwyddwr Corfforaethol, y Pennaeth Cyllid, y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth, y Pennaeth Addysg, y Pennaeth Tai ac Eiddo a'r Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, fe adawodd y Swyddog Monitro'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem, gan nad oeddent angen bod yn bresennol i gynghori.

## 4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cydymdeimlwyd â theulu'r Arglwydd Elis-Thomas a fu farw'n ddiweddar, a rhoddwyd teyrnged iddo gan y Cynghorydd Dyfrig Siencyn.

Cydymdeimlwyd hefyd â theulu Gillian Wynne Thomas, cyn-gynorthwyydd gwleidyddol gyda'r Cyngor, a fu farw'r wythnos ddiwethaf.

Nodwyd y bu farw Geraint Jarman a Marged Esli yn ddiweddar, a chydymdeimlwyd â'u teuluoedd hwythau hefyd.

Nodwyd ymhellach bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Ymdawelodd y Cyngor fel arwydd o barch a choffadwriaeth.

Nodwyd bod sawl aelod o'r Cyngor wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar a dymunwyd iddynt adferiad llwyr a buan.

Llongyfarchwyd y canlynol:-

- Aneurin Môn Parry, o Wasanaeth Cynllunio'r Cyngor, ar gael ei ddewis yn Gadeirydd Institiwt Cynllunio Trefol Brenhinol Cymru (RTPI) am 2025. Nodwyd bod Aneurin wedi gweithio yn y maes Cynllunio ers 1987, a'i fod bellach yn Arweinydd Tîm Gorfodaeth (Gwasanaeth Cynllunio) o fewn yr Adran Amgylchedd.
- Huw Elfed Roberts, Swyddog Gwasanaethau Etholiadol, ar gael ei benodi'n Gadeirydd Cangen Cymru o Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA), sef y corff proffesiynol ar gyfer swyddogion etholiadol y DU.
- Ysgol y Gorlan Tremadog ar ddod i'r brig efo Carol yr Ŵyl S4C eleni gyda charol a gyfansoddwyd gan Rhys ac Anest Glyn.
- Elain Iorwerth ar ennill y Goron yn Eisteddfod Ffermwyr Ifanc Cymru yn ôl ym mis Tachwedd.
- Mared Griffiths, Trawsfynydd, ar ennill ei chap pêl droed cyntaf i Gymru yn ddiweddar.

Cyfeiriwyd at ymddiswyddiad y Cynghorydd Linda Anne Jones o'r Cyngor. A hithau'n ddiwrnod Rhyngwladol y Merched ar 8 Mawrth, nodwyd bod Linda yn enghraifft wych o ddynes fu'n arwain mewn maes sy'n draddodiadol wedi ei arwain gan ddynion. Diolchwyd yn fawr iawn iddi am yn agos at 40 o flynyddoedd o wasanaeth, a dymunwyd y gorau iddi i'r dyfodol.

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 6. CWESTIYNAU

*(Cyhoeddwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau ymlaen llaw.)*

### (A) Cwestiwn gan Aelod o'r Cyhoedd

**Cwestiwn gan Mr Ieuan Wyn (cyfeiriad wedi'i ddarparu yn unol â gofynion y Cyfansoddiad)**

Mae'n gwbl annerbyniol fod disgyblion Gwynedd o aelwydydd Cymraeg ac aelwydydd di-gymraeg yn derbyn llai o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg nag y mae disgyblion ysgolion Cymraeg mewn cymunedau llai Cymraeg mewn rhannau eraill o'n gwlad. Mae plant a phobl ifanc, rhieni a chymunedau Gwynedd yn haeddu ysgolion gyda'r

ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg fwyaf cyflawn sy'n cael ei chynnig. Hynny fyddai'n briodol yn addysgol, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol. Yn sgil y ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi bil addysg a bod shifft iaith yn dwysáu yn arw yn y sir, a yw Cyngor Gwynedd am gymryd y cyfle euraid a thyngedfennol hwn i ddisodli polisi iaith addysg sydd wedi dyddio a chyflwyno polisi iaith addysg uchelgeisiol, clir, a chwbl newydd i'w ysgolion?

**Ateb yr Aelod Cabinet Addysg, Y Cynghorydd Dewi Jones**

Diolch am eich cwestiwn ac am eich diddordeb yn y maes pwysig hwn, maes sy'n bwysig i ni i gyd yn y Siambr hon rwy'n siŵr. Hefyd, diolch yn fawr i chi am fod yn barod i ddod i drafod gyda mi ychydig wythnosau yn ôl, pan gawsom yr union drafodaeth yma. Ydi, mae Cyngor Gwynedd am gymryd y cyfle euraid a thyngedfennol hwn i gyflwyno polisi iaith addysg uchelgeisiol, clir, a chwbl newydd i'n hysgolion. Fel rydych chi'n ymwybodol rwy'n siŵr, ac fel mae nifer o aelodau yn y Siambr heddiw yn ymwybodol, mae gwaith sylweddol yn digwydd eisoes dan arweiniad Meirion Prys Jones o lunio polisi a fydd yn cael ei gyflwyno ar ffurf drafft i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar y 10fed o Ebrill. Yn dilyn hynny, bydd yna gyfleoedd i ymgynghori gyda'r cyhoedd, ac rwy'n siŵr y bydd yna ran i chi chwarae yn hynny hefyd.

**Cwestiwn Atodol gan Mr Ieuan Wyn**

Diolch i chi am eich ymateb cadarnhaol a chalonogol yma heddiw ar goedd y bydd y polisi newydd yn uchelgeisiol, clir, a chwbl newydd. Gan hynny, fedrwch chi gadarnhau nad awgrymiadau a dyheadau yn unig fydd y polisi newydd, ond polisi clir a chadarn fydd yn gosod targedau clir i'r ysgolion i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn amserlen a cherrig milltir pendant, a pholisi i'w weithredu'n egnïol mewn ysbryd cenhadol gydag arweiniad a chefnogaeth yr Adran Addysg o ran monitro, adolygu a chynnig cymorth ymarferol i'r ysgolion?

**Ateb yr Aelod Cabinet Addysg, y Cynghorydd Dewi Jones**

Gallaf eich sicrhau y bydd y polisi yn uchelgeisiol a bydd y polisi yn sicrhau ein bod ni fel sir yn chwarae ein rhan i sicrhau bod gennym ni filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**(B) Cwestiynau gan Aelodau Etholedig**

**(1) Cwestiwn Y Cynghorydd Richard Glyn Roberts**

O ystyried bod ymdeimlad cryf yn lleol bod polisi treth gyngor ym maes tai gwag ac ail gartrefi, mewn rhai amgylchiadau, yn gosod baich trethiannol anghymesur ac annheg ar frodorion Gwynedd ac o ystyried bod canllawiau Llywodraeth Cymru ar y dreth gyngor ar dai gwag ac ail gartrefi yn dweud fel hyn:

*Mater i'r awdurdod lleol yw penderfynu a fydd yn defnyddio'r pwerau disgresiwn yn adrannau 12A, 12B neu 13A i leihau atebolrwydd y dreth gyngor mewn perthynas â phremiwm neu i leihau rhwymedigaeth safonol y dreth gyngor, neu'r ddau, fel y bo'n briodol. Dylai'r polisi hwn gwmpasu amrywiaeth o sefyllfaoedd lle byddai awdurdod lleol yn ystyried defnyddio ei bwerau dewisol, gan gynnwys eiddo nad ydynt yn bodloni'r meini prawf i gael eu dosbarthu fel rhai annomestig. Er mwyn sicrhau tegwch a thryloywder, dylai fod gan awdurdod lleol bolisi clir ynghylch a gaiff y pwerau hyn eu defnyddio a sut. Fodd bynnag, dylai'r awdurdod ystyried pob achos yn unigol ar ôl pwyso a mesur amgylchiadau'r achos.*

A oes gan Wynedd bolisi clir o'r fath gyda golwg ar ddefnyddio pwerau disgresiynol i leihau cyfradd y dreth gyngor sylfaenol (e.e. yn achos unedau gwyliau hunan ddarpar,

heb ganiatâd cynllunio i fod yn aelwydydd parhaol, sy'n methu cyrraedd y trothwy gosod 182 diwrnod) a sut mae'r awdurdod yn cloriannu amgylchiadau pob achos yn unigol gyda golwg ar y mater hwn ac ar fater cysylltiedig y premiwm?

**Ateb yr Aelod Cabinet Cyllid, Y Cynghorydd Huw Wyn Jones**

Dyma beth ydi sefyllfa'r Cyngor ar hyn o bryd. Rydym ni'n gweithredu'r gyfraith ac unrhyw eithriadau statudol sydd gennym i'w cyflawni yn ôl y gyfraith. Nid ydym yn gwneud unrhyw eithriadau dewisol ar hyn o bryd. Y pryder yw y byddem ni'n creu cynsail ac y byddai'r cynsail hwnnw yn gallu dod yn ôl i'n brathu, oni bai bod gennym ni bolisi cwbl glir. Mae eithriadau, wrth gwrs, yn anodd gan fod pob sefyllfa yn wahanol. Mae creu polisi clir, sydd ddim yn gosod cynsail, yn anodd ac mae croeso i chi ddod yn ôl atom ni i drafod hyn, ac i efallai ein helpu i geisio llunio rhyw fath o bolisi clir ar y mater hwn. Nid yw'r drws wedi cau, ond ar hyn o bryd mae ceisio darganfod ffordd o greu polisi eithriadau heb greu cynsail sy'n dod â phroblemau yn ei sgil yn anodd felly mae croeso i unrhyw un sydd yma heddiw gysylltu â mi i drafod hyn er mwyn gweld oes modd llunio polisi sy'n gweithio, ond mae'n anodd oherwydd bod pob achos ychydig yn wahanol. Rwy'n derbyn e-byst ynglŷn â'r maes yma yn lled aml.

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Richard Glyn Roberts**

Gawn ni gadarnhau felly mai trwy fwriad yn hytrach na thrwy ddiffyg does gennym ni ddim polisi ar hyn o bryd a bod y drws yn agored i lunio polisi, o bosib', yn y dyfodol fel nad ydi ffermydd teuluol, mentrau cymdeithasol, busnesau llety gwyliau lleol dilys sy'n methu cyrraedd y trothwy yn cael bil annisgwyl am £5,000 yn lle £2,000? Felly mae'r drws yn agored i ni drafod y math yna o bolisi?

**Ateb yr Aelod Cabinet Cyllid, Y Cynghorydd Huw Wyn Jones**

Mae'r rhestr o eithriadau rydych chi wedi eu rhoi yn amlygu pa mor anodd yw creu polisi sydd ddim yn dod yn ôl i'n brathu yn y dyfodol. Mae'r drws yn agored. Cysylltwch â mi – rydw i'n hapus iawn i drafod hefo chi, ond mae'n anodd iawn creu polisi yn y maes yma. Yn sicr, ni fydd unrhyw bolisi yn plesio pawb.

**(2) Cwestiwn Y Cynghorydd Rhys Tudur**

O ystyried bod unigolyn yn medru cael ei nodi i fod mewn angen am dŷ ar gyfer sawl ardal ar unwaith ar restr Cymdeithasau Tai neu'r Gofrestr Tai Gyffredin gan ychwanegu a lluosogi'r ffigwr y 'galw am dai' ar gyfer yr holl ardaloedd rheini y mae wedi dangos diddordeb i fyw ynddynt;

Ac o ystyried bod data'r 'galw am dai' wedi ei sylfaenu ar ddiddordeb mewn ardal yn hytrach nag angen ei phoblogaeth ac felly yn camarwain i'r graddau ei fod yn cyfiawnhau pob datblygiad ymhob man er mor anghydnaws ag ydynt ac er nad oes twf poblogaeth yn ein Sir;

Pa barodrwydd sydd gan y Cyngor hwn i nodi data o wir angen poblogaeth yr ardal ymhle lleolir cais cynllunio yn hytrach nag ystyried yr holl 'ddiddordeb' sirol sydd wedi ei nodi ar gyfer yr ardal?

**Ateb yr Aelod Cabinet Tai ac Eiddo, Y Cynghorydd Paul Rowlinson**

Diolch am godi'r pwynt pwysig hwn. Mae'n bwysig bod pob un ohonom yn deall union natur yr angen am dai cymdeithasol a beth mae'r ffigurau yn ddweud wrthym, ac yn arbennig felly'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ar faterion cynllunio. Rwy'n hyderus bod y data ar angen tai yr ydym yn eu cyhoeddi yn adlewyrchu yn gywir y gwir angen. Mae'r ffigurau ar adran Data Agored gwefan y Cyngor yn nodi'r "Angen Tai" ym mhob

ardal, gan ddiffinio angen tai yn ôl y nifer o geisiadau am dŷ cymdeithasol. Efallai fod y gwir angen am dai ychydig yn fwy na hyn gan nad yw rhai yn gwneud cais gan feddwl nad ydynt yn debygol o gael tŷ, ond nid oes modd mesur hynny ar hyn o bryd. Yn y data, mae'r sir yn cael ei rhannu yn 144 ardal, tua dwy ardal ym mhob ward ar gyfartaledd ac felly gan amlaf maent yn fychan iawn. Pan fydd rhywun yn chwilio am dŷ, fel rheol maent yn fodlon ystyried sawl ardal. Anogir ymgeiswyr i nodi ar eu ffurflen gais yr holl ardaloedd lle maent yn fodlon byw er mwyn uchafu eu siawns o gael cynnig cartref e.e. os yw rhywun yn ceisio tŷ ym Mangor, gallant roi cais am naw ardal o fewn y ddinas. O fewn ward Llanystumdwy y mae pum ardal. Mae'r ardaloedd hyn yn fychan iawn, rhai yn ddim ond un pentref.

Petai rhywun yn adio ffigurau ar gyfer yr holl ardaloedd at ei gilydd, byddai'r cyfanswm yn gamarweiniol gan y byddai'n cyfrif yr un ymgeiswyr sawl tro. Efallai mai dyna yw tarddiad y dryswch. Fodd bynnag, nid yw'r data a gyhoeddir yn gwneud hynny; mae'r ffigurau a nodir ar gyfer nifer y ceisiadau ar y gofrestr aros, dros 2,000, a nifer yr unigolion ar y gofrestr aros, dros 4,000, yn gywir. Mae yna nifer helaeth o bobl a phlant ar y rhestr ac mae'n bwysig codi mwy o dai cymdeithasol i ddiwallu'r angen a lleihau'r niferoedd hyn.

Pan gyflwynir cais cynllunio i ddatblygu tai cymdeithasol, mae'r Uned Strategaeth Tai yn rhoi sylwadau, gan gynnwys nifer y ceisiadau am dŷ yn yr ardal a'r mathau o dai sydd eu hangen. Mae'r dull yma o fesur angen yn ddull cydnabyddedig yn genedlaethol a defnyddir yr wybodaeth hon i brofi a oes angen lleol i gyfiawnhau'r cais.

Petaem ni'n cyfrif y rhai sy'n byw yn y pentref yn unig, ni fuasai hynny yn adlewyrchu'r gwir angen.

Mae rhai ymgeiswyr ar y rhestr aros yn byw yn y pentref ei hun, rhai yn yr ardaloedd cyfagos, rhai efallai yn dod o'r ardal yn wreiddiol, yn byw yn bell yn awr ac yn awyddus i symud adref. Efallai fod rhai wedi gorfod symud o'r ardal o'r blaen oherwydd diffyg tai fforddiadwy ac maent yn awyddus i symud adref a dylem eu helpu i wneud hynny. Efallai fod eraill yn ddigartref, yn aros dros dro mewn hostel neu wely a brecwast yn bell o'r pentref ac yn awyddus i ddychwelyd adref. Mae eraill yn gorfod symud i gymuned arall oherwydd eu hangen am fath arbennig o lety, e.e. eiddo ar gyfer pobl hŷn, fflatiau ayb., sydd ddim ar gael ymhob cymuned. Mae pobl yn symud hefyd yn aml ar sail angen ac nid dyhead (e.e. symud i fod yn agos i'w teulu er mwyn rhoi neu dderbyn cymorth, symud am resymau cyflogaeth, addysg, hyfforddiant, symud i osgoi trais neu fygythiadau o drais – ac mae'r rhain yn llawer iawn mwy cyffredin na fuasai rhywun yn feddwl). Mae'r rhesymau hyn wedi eu cydnabod yn y gyfraith ac felly yn rhywbeth sydd angen i'r Cyngor ei adlewyrchu yn ei drefniadau gosod.

Mae Polisi Gosod Tai Cyffredin Gwynedd yn blaenoriaethu unigolion a theuluoedd sydd wedi preswylio am bum mlynedd neu fwy yn ardal Cyngor Cymuned ar gyfer pob gosodiad a wneir trwy'r gofrestr er mwyn sicrhau bod blaenoriaeth i unigolion sydd â chyswllt â'r ardal benodol ond, fel rwyf wedi esbonio, mae ceisio diffinio'r angen lleol am dai trwy ei gyfyngu i'r rhai sydd yn byw yno ar hyn o bryd yn gamarweiniol.

Nid oes neb yn ceisio cyfyngu prynwyr tai i'r pentrefi ble maent eisoes yn byw yn unig; ni ddylid ceisio gosod cyfyngiadau cyffelyb ar y rhai y mae arnynt angen tai cymdeithasol.

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Rhys Tudur**

O ystyried mai'r data rydym ni'n ei gasglu ar hyn o bryd yw'r data angen sirol, a hefyd data ardaloedd sydd – ac rwy'n darllen nodyn yn y fan hyn ar y data ei hun sy'n dweud *"Mae'r data angen tai yn gofnod o bob ardal mae unigolyn wedi'i ddewis ar y cais".*

Felly o ystyried hynny, gai ofyn pa barodrwydd sydd gan y Cyngor hwn i gasglu data ar gyfer faint o unigolion sydd wedi dewis ardal fel eu blaenoriaeth pennaf rhif un, a hefyd faint o unigolion, sy'n byw mewn ardal lle mae yna gais cynllunio eisoes, sydd mewn angen am dŷ? Bydd y data hwnnw yn ein grymuso i fesur ble mae'r bobl sydd mewn angen am dai a bydd yn grymuso'r data sydd gennym ar yr angen yn lleol.

**Ateb yr Aelod Cabinet Tai ac Eiddo, Y Cynghorydd Paul Rowlinson**

Wel, rwyf wedi esbonio pam na fyddai'n briodol i nodi'r nifer sy'n byw yn y pentref, yn yr ardal yn barod. O ran y cwestiwn am y dewis cyntaf, wrth feddwl am y cwestiwn gwreiddiol, roeddem yn ystyried a fyddai'n beth doeth cynnwys y wybodaeth ychwanegol yna i helpu'r penderfynwyr, ond penderfynwyd nad oedd yn briodol. Wrth osod tai, nid ydym yn ystyried y drefn mae pobl wedi rhoi beth bynnag. Mae rhywun sydd wedi rhoi'r pentref i lawr fel ei ail ddewis yn cael ei ystyried yr un fath â rhywun sydd wedi'i roi fel dewis cyntaf, a hefyd nid yw llawer o bobl yn nodi'r dewis wrth lenwi'r ffurflen, ond yn ticio efallai hanner dwsin o flychau ar gyfer ble maent eisiau byw. Nid ydynt yn eu gosod mewn trefn flaenoriaeth ac felly, os ydynt yn y pentref, mae'n rhaid iddynt dderbyn y cynnig. Os ydynt yn gwrthod, maent yn disgyn i lawr y rhestr felly nid yw pobl yn cyflwyno ceisiadau am dai oni bai eu bod yn wirioneddol fodlon byw yn rhywle, er enghraifft, petai rhywun eisiau tŷ ym Mangor, efallai eu bod yn fodlon byw yn unrhyw un o'r 9 ardal ym Mangor. Nid yw pobl yn rhestru llefydd mewn trefn flaenoriaeth ar y ffurflenni, ac ni fyddai'n bosib' i ni ddarparu data cadarn o ran hynny. Mae yna broblemau ymarferol hefyd a byddai'n rhaid i chi fynd drwy'r system yn gwirio dewis cyntaf pawb. Mae yna gannoedd ar y rhestr. Yn fy ward i yn unig yn Rachub mae yna 177 felly mae yna broblemau ymarferol ynghlwm â gwneud hynny, ac nid yw hyn yn rhywbeth fyddai'n rhoi unrhyw ddata ystyrlon i chi mae gen i ofn.

**(3) Cwestiwn Y Cynghorydd Gwynfor Owen**

Tair blynedd yn ôl gofynnais gwestiwn yn y Cyngor "Beth mae'r Cyngor am ei wneud ynglŷn â'r broblem o oryrru yn ein cymunedau?

Cefais ateb adeg hynny gan y deilydd Cabinet, Y cyn Gynghorydd Gareth Griffiths, yn dweud y byddai'r cyfyngiad cyflymder 20mya yn dod i mewn yn fuan ac y byddai hynny gobeithio yn gwella'r sefyllfa.

Y realiti yw nad yw'r sefyllfa wedi gwella o gwbl. Rwyf yn derbyn cwynion ar hyd fy ward yn cychwyn yn Llandecwyn, ymlaen i Dalsarnau, Glan y Wern, Ynys, Harlech, Llanfair a Llanbedr. A fuasai'r Cyngor yn fodlon edrych ar ffyrdd amgen o atal y goryrru sydd yn creu gwir boendod i gymaint o fy etholwyr?

**Ateb yr Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Craig ab Iago**

Rwy'n rhannu eich pryderon am y goryrru. Dros y blynyddoedd, wrth fod yn gynghorydd, rydw i wedi llwyddo i ostwng y terfynau cyflymder gyrru ar lonydd yn fy ardal. Rwyf wedi cael sawl sgwrs gyda sawl swyddog o'r Cyngor ynglŷn â hyn, a'r realiti o'm mhersbectif i fel cynghorydd yw nad oes yna lawer y gall y Cyngor ei wneud i newid sut mae pobl yn bihafio ar y lonydd. Os oes gennych chi unrhyw awgrymiadau neu syniadau, byddwn yn croesawu sgwrs ynglŷn â hynny unrhyw bryd. Rwy'n credu y byddai'n fuddiol mynd â'r mater gerbron pwyllgor craffu rhywbryd, ac mi fyddwn yn croesawu sgwrs gyda chi ynglŷn â'r mater.

**Cwestiwn Atodol Y Cynghorydd Gwynfor Owen**

Diolch am yr ateb cynhwysol. Er bod yr ateb ysgrifenedig yn llawn ffeithiau, y paragraff olaf yn unig sy'n ateb fy nghwestiwn, ac er fy mod yn hynod ddiolchgar o'r ateb yma, hoffwn ofyn am sicrwydd pellach y bydd swyddogion y Cyngor yn fodlon trafod pob opsiwn gyda mi ar gyfer arafu traffig ar lonydd oddi mewn i fy ward. Wrth

deithio drwy Gymru a thu hwnt, mae rhywun yn gweld pob math o bethau yn cael eu defnyddio i arafu traffig, ee. culhau lonydd, creu mannau croesi, arwyddion yn fflachio neu rywbeth i atgoffa gyrwyr o'r peryglon o or-yrru, a byddai'n braf gweld rhai o'r opsiynau yma yn cael eu defnyddio yn fy ward. Gan hynny, a fedrwch chi sicrhau y bydd swyddogion y Cyngor yn fodlon trafod gyda mi bob opsiwn posib' ar gyfer arafu traffig oddi mewn i fy ward?

**Ateb yr Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Craig ab Iago**

Rwy'n hapus i drafod gyda chi. Croeso hefyd i unrhyw aelod arall gysylltu â mi i gael sgwrs am or-yrru yn eu ward.

**(4) Cwestiwn Y Cynghorydd Jina Gwyrfai**

Pa ystyriaeth a roddir i'r dynodiad 'ardal cadwraeth' wrth ystyried ceisiadau cynllunio, yn enwedig ceisiadau i osod paneli solar a phympiau gwresogi?

**Ateb yr Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Craig ab Iago**

Mae'r cwestiwn yn dechnegol iawn. Nid oes gen i unrhyw beth i'w ychwanegu i'r hyn sydd yn yr ateb ysgrifenedig. Ydi'r ateb o gymorth i chi?

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Jina Gwyrfai**

O'r ateb, mae'n dda bod ystyriaeth arbennig yn cael ei rhoi i edrychiad ardaloedd cadwraeth tra bo pob cais cynllunio yn cael sylw unigol, sy'n ddigon teg. Fodd bynnag, wedyn mae'r egwyddor o edrych ar ôl cadwraeth yn y fantol yn fy marn, felly hoffwn holi sut mae cysoni'r ddwy egwyddor bwysig yma i sicrhau nad canlyniad cronnol caniatáu nifer fawr o baneli solar, ac ati, yw dinistrio ardaloedd cadwraeth? Mae'n rhaid cael rhyw fath o fonitro.

**Ateb yr Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Craig ab Iago**

Mi fyddwn i'n cytuno â chi, ond eto mae'r cwestiwn yn gwestiwn technegol. Rwy'n hapus i gael sgwrs gyda chi a'r swyddogion i ddod o hyd i ateb sy'n ateb eich cwestiwn o ddifri'.

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL – POLISI TAL GWEITHLU'R CYNGOR

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion, y Cynghorydd Ioan Thomas, adroddiad yn argymell i'r Cyngor gymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i fabwysiadu'r Polisi Tâl ar gyfer 2025/26.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Gan gyfeirio at sylwadau'r swyddogion statudol ar ddiwedd yr adroddiad, holwyd oni fyddai wedi bod yn briodol cael barn gyfreithiol a chyllidol o'r tu allan i'r awdurdod yn yr achos hwn oherwydd buddiant y Swyddog Monitro a'r Swyddog Cyllid Statudol yn y mater. Mewn ymateb, nododd y Prif Weithredwr nad y Swyddog Monitro a'r Swyddog Cyllid Statudol oedd wedi cyflwyno'r sylwadau yn yr achos hwn, eithr eu dirprwyon, ond y dylid bod wedi gwneud hynny'n glir yn yr adroddiad.

Holwyd a ddylai'r Cyngor fod yn mabwysiadu'r Polisi Tâl os oes pwynt o bryder priodoldeb. Mewn ymateb, nododd y Prif Weithredwr nad oedd yna bwynt o bryder priodoldeb, ac y byddai'r cofnod o'r eitem hon yn nodi'n glir mai dirprwyon y ddau swyddog statudol oedd wedi cyflwyno'r sylwadau.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu Polisi Tâl Gweithlu'r Cyngor ar gyfer 2025/26.**

## 8. ADDASIADAU I BROSIECTAU GWYNEDD OFALGAR – CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Iechyd, Oedolion a Llesiant, y Cynghorydd Dilwyn Morgan, adroddiad yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo ychwanegu prosiect Gofal Cartref at y meysydd sydd i'w blaenoriaethu ar lefel strategol fel rhan o Gynllun Cyngor Gwynedd 2023-28.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau.

Holwyd a oedd gan y Cyngor system deg a chadarn o gyfeirio cwynion i sylw'r Gwasanaeth Gofal. Mewn ymateb, nododd y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol:-

- Bod gan y Cyngor system ar gyfer gwrando ar gwynion a dysgu gwersi, ac ar gyfer derbyn sylwadau calonogol a chadarnhaol hefyd.
- Bod swyddog o'r Adran Plant a swyddog o'r Adran Oedolion yn delio â chwynion a sylwadau'n benodol, ac yn adrodd yn rheolaidd i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Gofal.
- Bod y maes hefyd wedi'i gynnwys fel rhan o'i adroddiad blynyddol i'r Cyngor, ac y byddai'n hapus i drafod ymhellach gyda'r aelod pe dymunai.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo ychwanegu'r prosiect isod at y meysydd sydd i'w blaenoriaethu ar lefel strategol fel rhan o Gynllun Cyngor Gwynedd 2023 28.**

***<u>Sicrhau bod cefnogaeth amserol a llawn i'w gael i gefnogi pobl i allu byw adref</u>***

***I sicrhau bod modd i bobl fyw eu bywyd gorau, mae'n rhaid i ni sicrhau fod cefnogaeth brydlon a rhwydd ar gael i unigolion a'u teuluoedd.***

***Byddwn yn gweithredu cynlluniau er mwyn:***

- ***Sicrhau ein bod yn cydnabod pa mor werthfawr yw gofalwyr teuluol a di-dâl drwy wneud yn siŵr ein bod yn gallu eu hadnabod yn rhwydd a chynnig cefnogaeth lawn iddynt wrth ofalu.***
- ***Lleihau ein rhestrau aros am becynnau gofal cartref newydd, gan sicrhau nad oes unrhyw un yng Ngwynedd yn aros mwy na 28 diwrnod yn dilyn asesiad gofal.***

## 9. CYLLIDEB 2025-26

Cyn cychwyn trafod yr eitem hon, nododd y Cadeirydd, yn unol â'r Cyfansoddiad, bod rhaid i'r Pennaeth Cyllid dderbyn rhybudd o unrhyw welliant i'r gyllideb yn ysgrifenedig ymlaen llaw, a bod rhaid i'r gwelliant hwnnw arwain at gyllideb hafal, os am gael ei drafod. Roedd holl aelodau'r Cyngor wedi'u hatgoffa o hynny'r wythnos cynt, a gan na dderbyniodd y Pennaeth Cyllid unrhyw rybudd o welliant erbyn yr amser cau dynodedig, ni fyddai modd i'r Cyngor ystyried unrhyw welliant i'r gyllideb.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cyllid, y Cynghorydd Huw Wyn Jones:-

- Adroddiad yn argymell cyllideb i'r Cyngor ei chymeradwyo ar gyfer 2025/26;
- Penderfyniad drafft y Dreth Cyngor yn seiliedig ar argymhelliad y Cabinet i'r Cyngor (ar sail cynnydd o 8.66%) ynghyd â thablau yn dangos lefel y Dreth Cyngor a'r cynnydd fesul cymuned.

Diolchodd yr Aelod Cabinet i staff yr Adran Gyllid am eu holl waith yn paratoi'r gyllideb.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Aelod Cabinet am ei gyflwyniad ac am wneud yr achos dros y gyllideb yn glir. Diolchodd i'r swyddogion am arwain y Cyngor drwy'r broses, ac am eu harbenigedd a'u sgiliau. Diolchodd hefyd i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

am eu gwaith yn craffu'r gyllideb, ac i'w chyd-gynghorwyr am fynychu'r gweithdai ar y gyllideb. Nododd ymhellach:-

- Bod y gyllideb yn adlewyrchu gwerthoedd y Cyngor gan ei bod yn blaenoriaethu'r bobl fwyaf bregus mewn cymdeithas drwy warchod gofal i blant a gwasanaethau cymdeithasol oedolion, clustnodi arian i geisio lleihau'r rhestrau aros am ofal a gwarchod ysgolion rhag toriadau'r flwyddyn nesaf.
- Bod y pwysau ar y gwasanaethau yn cynyddu yn flynyddol gyda phoblogaeth y sir yn heneiddio, mwy o bobl angen gofal, mwy o blant bregus angen gofal a mwy o bobl yn ddigartref.
- Er y cynnydd yn y galw am wasanaethau, bod rhaid i'r Cyngor osod cyllideb hafal.
- Yn sgil dwyn pwysau ar Bwyllgor Cyllid Senedd Cymru drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y cafwyd isafswm i'r setliad, neu byddai sefyllfa Gwynedd wedi bod hyd yn oed yn fwy dybryd. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn ateb tymor hir, ac er lles pobl Gwynedd, roedd yn ofynnol sicrhau cyllido teg i lywodraeth leol.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau.

Holwyd pa mor hyderus oedd y Pennaeth Cyllid bod y gyllideb yn gadarn ac na fyddai'n rhaid i'r Cyngor wneud defnydd o falansau eto eleni. Mewn ymateb, manylodd y Pennaeth Cyllid ar gynnwys Atodiad 10 i'r adroddiad, sef y datganiad y mae'n ofynnol iddo ei wneud fel Swyddog Cyllid Statudol ar gadernid yr amcangyfrifon yn unol ag Adran 25, Deddf Llywodraeth Leol 2003.

O ran yr elfen o'r cwestiwn yn ymwneud â'r defnydd o falansau, nododd y Pennaeth Cyllid y credai y byddai'r adnoddau ychwanegol a gynhwyswyd fel rhan o'r bidiau (Atodiad 2) yn mynd lawer o'r ffordd tuag at ymdrin â'r bwlch ariannol a'r gorwariant a welwyd yn 2024/25, gan ragweld na fyddai hynny'n digwydd eto'r flwyddyn nesaf. Er hynny, ni allai warantu na fyddai yna orwariant eto yn 2025/26.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid, wedi ystyried yr holl risgiau a'r camau lliniaru, ei fod o'r farn bod Cyllideb y Cyngor am 2025/26 yn gadarn, yn ddigonol, ac yn gyraeddadwy.

Cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau:-

- Nad oedd llywodraeth leol yn cael ei ariannu'n briodol ac nad oedd y system Dreth Cyngor fyth am weithio i'n hetholwyr. Byddai treth incwm lleol yn system decach, a chredid bod angen ymchwilio ymhellach i hynny.
- Bod y bwlch ariannol yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn ac y byddai angen cynyddu gwariant y Cyngor £25.8m yn 2025/26 er mwyn sefyll yn llonydd.
- Bod y ddwy Lywodraeth yn symud fwyfwy tuag at dreth anflaengar, yn hytrach na threth flaengar. Yn 1996, roedd 81.8% o gyllideb y Cyngor yn cael ei thalu gan y llywodraeth ganolog. Erbyn 2009/10 roedd y ffigwr wedi gostwng i 78.4%, ac erbyn hyn roedd wedi disgyn bron 10% arall i 69.5%.
- Yn sgil 15 mlynedd o lymder, bod y gwasanaethau cyhoeddus ar eu gliniau, lefelau uwch nag erioed o bobl yn ddigartref a phlant yn dioddef o afiechydon nas gwelwyd ers Oes Fictoria.
- Bod Llywodraeth San Steffan yn llwyddo i ganfod arian i dalu am ryfel tra'n torri ar y wladwriaeth les.
- Y cafwyd addewid o "bartneriaeth mewn grym" rhwng Llywodraeth San Steffan a Llywodraeth Cymru, yn cael ei arwain at y Blaid Lafur, ond addewid gwag oedd hynny.
- Bod y Dreth Gyngor yn dreth annheg ac anflaengar sy'n sicrhau nad yw'r bobl fwyaf cyfoethog mewn cymdeithas yn talu eu siâr. O bosib' bod angen siarad yn uwch am hyn yn y flwyddyn ariannol nesaf, gan geisio perswadio cynghorau eraill i wneud yr un fath.
- Bod y Cyngor yn wynebu penderfyniadau anodd, ond bod y penderfyniadau hynny yn sicrhau ein bod yn gallu cefnogi'r bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas, a hefyd y genhedlaeth nesaf.

- Bod y swm o arian sy'n dod i Wynedd gan Lywodraeth Cymru yn ddibynnol ar ffigurau poblogaeth y sir, sy'n gostwng, ac y gobeithir y bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn gwneud popeth o fewn eu gallu i greu swyddi yng Ngwynedd, fel na fydd angen i bobl adael y sir i chwilio am waith.

Nodwyd bod y cynnydd arfaethedig o 8.66% yn y Dreth Gyngor yn cario drwodd i'r Premiwm Treth Cyngor ac yn gosod baich trethiannol anghymesur ac annheg ar rai o frodorion Gwynedd, megis ffermydd teuluol, mentrau cymdeithasol a busnesau llety gwyliau lleol dilys, ayb. Holwyd pa mor anodd fyddai cyflwyno eithriadau ychwanegol mewn polisi eglur, yn hytrach nag ymdrin â sefyllfaoedd achos wrth achos lle nad oes gwir eglurder. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Mai polisi'r Cyngor oedd i ganiatáu eithriadau statudol yn unig.
- Bod yna ran o'r ddeddfwriaeth sy'n caniatáu i'r Cyngor ystyried gostwng biliau Treth Cyngor, boed hynny i grŵp o drethdalwyr neu i drethdalwyr unigol.
- Mewn achosion o wir galedi, y tueddid i ystyried disgresiwn ar gyfer, nid yn unig y Premiwm, ond y Dreth Gyngor i gyd.
- Wrth ystyried sefyllfa grwpiau o drethdalwyr, bod rhaid sicrhau bod y mater yn cael ei drin yn gytbwys ac yn unol â'r ddeddfwriaeth, ac ni ellid codi Premiwm ar un garfan o bobl a ddim ar garfan arall, oni bai bod yna eglurhad a chyfiawnhad clir dros wneud hynny. Fel y bu i'r Aelod Cabinet Cyllid nodi mewn ymateb i gwestiwn ar yr union fater hwn yn gynharach yn y cyfarfod, roedd perygl o greu cynsail ac y gallai'r cynsail hwnnw ddod yn ôl i'n brathu, oni bai bod gennym bolisi cwbl glir.
- Er mor anodd fyddai creu polisi, ni fyddai hynny'n amhosib', a gellid edrych ar hynny ymhellach a chael polisi yn ei le.

Nododd yr Aelod Cabinet Addysg ei fod yn falch bod y gyllideb ysgolion yn cael ei hamddiffyn yn 2025/26, ond bod ysgolion y sir, fel nifer o sectorau eraill mewn cymdeithas, dan straen aruthrol, gyda phenaethiaid yn ei chael yn anodd llunio cyllideb gytbwys a staff mewn rhai ysgolion yn colli swyddi o ganlyniad i hynny.

Nododd yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant:-

- Bod y gwaith anodd sydd wedi digwydd i bwyso a mesur y toriadau yn erbyn cynyddu'r Dreth Gyngor wedi bod yn llwybr hir a chaled.
- Bod y gyllideb gerbron yn buddsoddi yn y bobl fwyaf bregus.
- Bod 82% o orwariant y Cyngor yn dod o'r maes gofal, ond nid gorwariant ydoedd mewn gwirionedd, eithr diffyg cyllido'r holl ofal sydd ei angen, a hynny dros nifer o flynyddoedd.
- Gyda'r galw am ofal yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, bod y staff yn gweithio'n galed iawn saith diwrnod yr wythnos, bob wythnos o'r flwyddyn.
- Er bod y Cyngor bellach yn darparu ychydig dros 9,000 o oriau o ofal yr wythnos, nid oedd hynny'n ddigonol ac roedd yna bobl ar y rhestrau aros o hyd.
- Na ellir rhoi sicrwydd na fydd yna orwariant yn y maes gofal eto'r flwyddyn nesaf gan na ellir darogan beth fydd y galw am y gwasanaethau, ond gyda'r gyllideb hon, byddai'r Cyngor yn cymryd y cam cyfrifol tuag at y bobl fwyaf bregus yn y sir.

Galwyd am bleidlais gofrestredig ar y cynnig.

Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y cynnig:-

| | | |
|---|---|---|
| O blaid | 45 | Y Cynghorwyr:- Craig ab Iago, Menna Baines, Beca Brown, Stephen Churchman, Glyn Daniels, Elwyn Edwards, Elfed Wyn ap Elwyn, Alan Jones Evans, Gwilym Evans, Delyth Lloyd Griffiths, Jina Gwyrfai, Medwyn Hughes, Iwan Huws, Nia Wyn Jeffreys, Berwyn Parry Jones, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Gwilym Jones, Gareth Tudor Jones, Huw Wyn Jones, June Jones, Cai Larsen, Beth Lawton, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Llio Elenid Owen, John Pughe, Rheinallt Puw, Arwyn Herald Roberts, Beca Roberts, Elfed P Roberts, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, |

| | | |
|---|---|---|
| | | Huw Llwyd Rowlands, Paul Rowlinson, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Menna Trenholme, Rhys Tudur, Einir Wyn Williams, Elfed Williams, Sasha Williams a Sian Williams. |
| Yn erbyn | 12 | Y Cynghorwyr:- Dylan Fernley, Louise Hughes, Anne Lloyd Jones, Elwyn Jones, Dewi Owen, Gareth Coj Parry, John Pughe Roberts, Peter Thomas, Rob Triggs, Hefin Underwood, Gareth Williams a Gruffydd Williams. |
| Atal | 2 | Y Cynghorwyr Eryl Jones-Williams a Nigel Pickavance. |

Nododd y Cadeirydd fod y cynnig wedi cario.

**PENDERFYNWYD**

**1. Cymeradwyo'r argymhellion a gyflwynwyd gan y Cabinet, sef:-**

**(a) Sefydlu cyllideb o £356,815,330 ar gyfer 2025/26 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £248,389,720 a £108,425,610 o incwm o'r Dreth Cyngor (sy'n gynnydd o 8.66%).**

**(b) Sefydlu rhaglen gyfalaf o £53,736,190 yn 2025/26 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cyngor.**

**2. Nodi fod yr Aelod Cabinet dros Gyllid, drwy daflen benderfyniad dyddiedig 30 Rhagfyr 2024, wedi cymeradwyo cyfrifiad y symiau a ganlyn ar gyfer y flwyddyn 2025/26 yn unol â'r rheoliadau a luniwyd dan Adran 33 (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Y Ddeddf"):-**

**(a) 56,842.05 yw'r swm a gyfrifwyd fel ei Sylfaen Dreth Cyngor am y flwyddyn yn unol â'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Cyngor) (Cymru) 1995 fel y'i diwygiwyd.**

**(b) Rhan o ardal y Cyngor – Sylfaen Drethiannol Cymuned –**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Aberdaron** | **621.88** | **Llanddeiniolen** | **1,904.89** |
| **Aberdyfi** | **1,194.77** | **Llandderfel** | **528.88** |
| **Abergwyngregyn** | **121.90** | **Llanegryn** | **174.80** |
| **Abermaw (Barmouth)** | **1,317.52** | **Llanelltyd** | **310.17** |
| **Arthog** | **695.76** | **Llanengan** | **2,751.39** |
| **Y Bala** | **818.83** | **Llanfair** | **362.68** |
| **Bangor** | **4,244.36** | **Llanfihangel y Pennant** | **251.76** |
| **Beddgelert** | **350.40** | **Llanfrothen** | **237.36** |
| **Betws Garmon** | **146.24** | **Llangelynnin** | **484.85** |
| **Bethesda** | **1,765.16** | **Llangywer** | **159.19** |
| **Bontnewydd** | **463.21** | **Llanllechid** | **371.67** |
| **Botwnnog** | **484.06** | **Llanllyfni** | **1,471.45** |
| **Brithdir a Llanfachreth** | **474.36** | **Llannor** | **951.51** |
| **Bryncrug** | **355.42** | **Llanrug** | **1,154.25** |
| **Buan** | **244.98** | **Llanuwchllyn** | **334.68** |
| **Caernarfon** | **3,721.81** | **Llanwnda** | **857.37** |
| **Clynnog Fawr** | **489.83** | **Llanycil** | **213.75** |
| **Corris** | **319.67** | **Llanystumdwy** | **937.44** |
| **Criccieth** | **1,016.89** | **Maentwrog** | **319.62** |
| **Dolbenmaen** | **652.91** | **Mawddwy** | **378.38** |
| **Dolgellau** | **1,315.09** | **Nefyn** | **1,696.20** |
| **Dyffryn Ardudwy** | **873.94** | **Pennal** | **238.53** |
| **Y Felinheli** | **1,202.04** | **Penrhyndeudraeth** | **838.59** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ffestiniog** | **1,842.24** | **Pentir** | **1,310.58** |
| **Y Ganllwyd** | **88.00** | **Pistyll** | **298.51** |
| **Harlech** | **870.85** | **Porthmadog** | **2,304.34** |
| **Trefor a Llanaelhaearn** | **475.75** | **Pwllheli** | **1,866.35** |
| **Llanbedr** | **359.87** | **Talsarnau** | **365.44** |
| **Llanbedrog** | **882.45** | **Trawsfynydd** | **528.93** |
| **Llanberis** | **814.21** | **Tudweiliog** | **520.39** |
| **Llandwrog** | **1,083.91** | **Tywyn** | **1,776.31** |
| **Llandygai** | **1,038.17** | **Waunfawr** | **595.31** |

**sef y symiau a gyfrifwyd fel symiau Sylfaen y Dreth Cyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.**

**3. Bod y symiau a ganlyn yn cael eu cyfrifo yn awr gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2025/26 yn unol ag Adrannau 32 i 36 o'r Ddeddf:-**

| | | |
|---|---|---|
| **(a)** | **£581,749,890** | **Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2)(a) i (e) o'r Ddeddf (gwariant gros).** |
| **(b)** | **£221,986,500** | **Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(3)(a) i (c) o'r Ddeddf (incwm).** |
| **(c)** | **£359,763,390** | **Sef y swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm 3(a) uchod a chyfanswm 3(b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) o'r Ddeddf, fel ei ofynion cyllideb ar gyfer y flwyddyn (cyllideb net).** |
| **(ch)** | **£247,894,058** | **Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy yn ystod y flwyddyn i'w gronfa ar gyfer cyfan o'r Dreth Annomestig Genedlaethol a Grant Cynnal Refeniw, llai amcangyfrif o'r gost i'r Cyngor o ryddhad dewisol o'r dreth annomestig a ganiateir.** |
| **(d)** | **£1,968.07** | **Sef y swm yn 3(c) uchod llai'r swm yn 3(ch) uchod, y cyfan wedi ei rannu gan y swm a nodir yn 2(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 33(1) o'r Ddeddf, sef swm sylfaenol ei Dreth Cyngor am y flwyddyn (treth Cyngor Gwynedd a threth cyfartalog cynghorau cymuned).** |
| **(dd)** | **£3,443,721.04** | **Sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) o'r Ddeddf (praeseptau'r cynghorau cymuned).** |
| **(e)** | **£1,907.49** | **Sef y swm yn 3(d) uchod llai'r canlyniad a geir wrth rannu'r swm yn 3(dd) uchod â'r swm yn 2(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(2) fel swm sylfaenol ei Dreth Cyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle nad oes unrhyw eitem arbennig yn berthnasol (Band D ar gyfer treth Cyngor Gwynedd yn unig).** |

**(f) Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor –**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Aberdaron** | **1,935.63** | **Llanddeiniolen** | **1,923.76** |
| **Aberdyfi** | **1,945.61** | **Llandderfel** | **1,935.85** |
| **Abergwyngregyn** | **1,944.41** | **Llanegryn** | **1,952.40** |
| **Abermaw (Barmouth)** | **1,960.16** | **Llanelltyd** | **1,946.18** |
| **Arthog** | **1,929.05** | **Llanengan** | **1,931.11** |
| **Y Bala** | **1,942.30** | **Llanfair** | **1,957.12** |
| **Bangor** | **2,049.15** | **Llanfihangel y Pennant** | **1,957.54** |
| **Beddgelert** | **1,948.02** | **Llanfrothen** | **1,961.42** |
| **Betws Garmon** | **1,929.03** | **Llangelynnin** | **1,937.20** |
| **Bethesda** | **1,971.14** | **Llangywer** | **1,938.90** |
| **Bontnewydd** | **1,947.43** | **Llanllechid** | **1,953.82** |
| **Botwnnog** | **1,920.92** | **Llanllyfni** | **1,943.51** |
| **Brithdir a Llanfachreth** | **1,932.79** | **Llannor** | **1,929.56** |
| **Bryncrug** | **1,945.05** | **Llanrug** | **1,994.13** |
| **Buan** | **1,925.86** | **Llanuwchllyn** | **1,957.69** |
| **Caernarfon** | **2,022.94** | **Llanwnda** | **1,946.10** |
| **Clynnog Fawr** | **1,978.94** | **Llanycil** | **1,929.71** |
| **Corris** | **1,966.93** | **Llanystumdwy** | **1,929.36** |
| **Criccieth** | **1,966.49** | **Maentwrog** | **1,928.99** |
| **Dolbenmaen** | **1,935.06** | **Mawddwy** | **1,942.11** |
| **Dolgellau** | **1,966.04** | **Nefyn** | **1,963.50** |
| **Dyffryn Ardudwy** | **1,970.42** | **Pennal** | **1,982.95** |
| **Y Felinheli** | **1,951.27** | **Penrhyndeudraeth** | **2,028.65** |
| **Ffestiniog** | **2,043.19** | **Pentir** | **1,949.46** |
| **Y Ganllwyd** | **1,944.42** | **Pistyll** | **1,947.69** |
| **Harlech** | **2,005.10** | **Porthmadog** | **1,939.46** |
| **Trefor a Llanaelhaearn** | **1,960.04** | **Pwllheli** | **1,977.14** |
| **Llanbedr** | **1,988.07** | **Talsarnau** | **2,000.53** |
| **Llanbedrog** | **1,941.49** | **Trawsfynydd** | **1,945.30** |
| **Llanberis** | **1,958.07** | **Tudweiliog** | **1,926.71** |
| **Llandwrog** | **1,983.73** | **Tywyn** | **1,966.57** |
| **Llandygai** | **1,944.96** | **Waunfawr** | **1,927.65** |

**sef y symiau a geir trwy ychwanegu symiau'r eitem neu eitemau arbennig sy'n berthnasol i dai annedd yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod, at y swm a geir yn 3(e) uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 2(b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 34(3) o'r Ddeddf, fel symiau sylfaenol ei Dreth Cyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.**

**(ff) Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor, y ffigyrau a nodir yn Atodiad 1, sef y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 3(f) uchod â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau a nodir yn Adran 5 (1) o'r Ddeddf, yn berthnasol i dai annedd a restrir mewn band prisio arbennig wedi'i rannu â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau hynny'n berthnasol i dai a restrir ym mand prisio D, a gyfrifir gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36(1) o'r Ddeddf, yn symiau sydd i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn ar gyfer y categorïau o dai annedd a restrir yn y gwahanol fandiau prisio.**

**4. Nodi ar gyfer y flwyddyn 2025/26 fod Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi nodi'r symiau a ganlyn mewn praesept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 o'r Ddeddf ar gyfer pob un o'r categorïau o dai annedd a ddangosir isod:**

| Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 248.10 | 289.45 | 330.80 | 372.15 | 454.85 | 537.55 | 620.25 | 744.30 | 868.35 |

**5. Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau 3(ff) a 4 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) o'r Ddeddf trwy hyn, yn pennu'r symiau a nodir yn Atodiad 2 ar gyfer y Dreth Cyngor yn y flwyddyn 2025/26 ar gyfer pob categori o dai annedd a ddangosir yn yr Atodiad.**

## 10. STRATEGAETH GYFALAF 2025-26 (YN CYNNWYS STRATEGAETHAU BUDDSODDI A BENTHYCA)

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cyllid, y Cynghorydd Huw Wyn Jones, adroddiad yn rhoi trosolwg lefel uchel ar y modd y mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgaredd rheolaeth trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol. 'Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi trosolwg o sut y rheolir risgiau cysylltiedig, a'r goblygiadau i gynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnwyd sylw gan yr Aelod Cabinet at baragraff 6.4 o Atodiad C i'r adroddiad '*Ystyriaethau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG)*' a ddiwygiwyd yn dilyn rhybudd o gynnig y Cynghorydd Cai Larsen i gyfarfod 3 Hydref, 2024 o'r Cyngor. Nodwyd bod y Strategaeth yn cadarnhau bod y Cyngor yn ymrwymedig i fod yn fuddsoddwr cyfrifol gan ystyried holl ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu wrth fuddsoddi.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 205/26.**

## 11. SEFYDLU CYD-BWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad:-

- yn nodi bod canllawiau statudol ac arfer presennol yn arwain tuag at chwe chyngor y Gogledd yn sefydlu model craffu trosolwg ar y cyd fel bod un corff penodol sy'n cael ei drochi yng ngwaith y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC);
- yn cyflwyno cyfres o argymhellion sy'n darparu ar gyfer trefniadau craffu ar gyfer y Cyd-bwyllgor.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau.

Mynegwyd anfodlonrwydd bod penodi aelodau'r Cyd-bwyllgor ar sail cydbwysedd gwleidyddol y cynghorau unigol yn eithrio grwpiau llai ar draws y Gogledd rhag cyrraedd y trothwy. Awgrymwyd hefyd y byddai Cyd-bwyllgor o 18 o aelodau (sef 3 aelod o bob cyngor, yn hytrach na 2 fel sy'n cael ei gynnig) yn rhoi gwell siawns i grwpiau llai gael sedd ar y Cyd-bwyllgor. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y byddai'r pryder hwn yn cael ei gyfleu.
- Nad oedd y drws wedi cau ac y byddai'n bosib' addasu neu ddatblygu'r model ymhellach ar ôl profiad o gynnal y trefniadau.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau, eglurwyd, petai argymhellion yr adroddiad yn cael eu mabwysiadu, mai'r Cyngor llawn, ym mis Mai, fyddai'n mabwysiadu dyraniad seddau'r

Cyngor hwn ar y Cyd-bwyllgor fel rhan o'i adolygiad blynyddol o gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor. O edrych ar y rhifau a'r rhaniad gwleidyddol, a heb ragfarnu unrhyw benderfyniad, roedd yn ymddangos ar hyn o bryd y byddai yna 1 sedd i Grŵp Plaid Cymru ac 1 sedd i'r Grŵp Annibynnol.

Nododd yr Arweinydd, er yn cytuno â llawer o'r pwyntiau, nad oedd y drefn CBC, sy'n golygu rhanbartholi o Fôn i Wrecsam, yn ddull democrataidd o wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, gan fod y drefn wedi'i gorfodi arnom, roedd yn bwysig sicrhau dull o graffu gwaith y CBC a'i ddal yn atebol.

**PENDERFYNWYD**

1. **Sefydlu Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyd bwyllgor Corfforedig y Gogledd gyda'r Cylch Gorchwyl sydd yn Atodiad 1 i'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cyngor.**
2. **Cytuno bod pwerau Pwyllgorau Craffu lleol y darperir ar eu cyfer o dan Reoliadau Cyd bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022 yn cael eu cadw.**
3. **Cytuno y bydd cydbwysedd gwleidyddol enwebeion Cyngor Gwynedd i'r pwyllgor trosolwg a chraffu ar y cyd (CBTcH) yn adlewyrchu aelodaeth Cyngor Gwynedd yn hytrach na chyfanswm aelodaeth holl gynghorau Gogledd Cymru.**
4. **Cytuno y bydd yr ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Cyd bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cael ei ddarparu gan y CBC yn unol â'r Cylch Gorchwyl.**

## 12. AROLYGON CYMUNEDOL O DAN DDEDDF LLYWODRAETH LEOL (DEMOCRATIAETH) (CYMRU) 2013

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol, y Cynghorydd Llio Elenid Owen, adroddiad:-

- yn nodi y bu i'r Cyngor, ar 7 Mawrth, 2024, gymeradwyo cynnal arolygon cymunedol o dan adrannau 25 a 31 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.
- yn adrodd yn ôl ar ganlyniad y cyfnod ymgynghori ac ymchwilio cychwynnol ar yr arolygon cymunedol hynny; ac
- yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Cynigion Drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus pellach.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cynigion Drafft dan adrannau 25 a 31 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth)(Cymru) 2013 er mwyn ymgynghori arnynt.**

## 13. ADDASU Y CYFANSODDIAD – PORTFFOLIOS CABINET

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad yn adrodd yn ffurfiol, yn unol â Rhan 5 o'r Cyfansoddiad, bod Arweinydd y Cyngor wedi gweithredu i ail-drefnu Portffolios Aelodau'r Cabinet.

Gwnaed sylw gan aelod bod mwyafrif aelodau'r Cabinet yn dod o ardal Arfon, ac mai un yn unig sy'n hanu o Feirionnydd. Nodwyd hefyd bod yr Aelodau Cabinet sy'n dod o Ddwyfor yn byw ar gyrion Arfon. Gan hynny, holwyd sut y gellid sicrhau nad oes yna ragfarn ddiarwybod yn codi wrth wneud penderfyniadau ar sail daearyddiaeth, ac i ba raddau y gellid osgoi diffyg cydymdeimlad â chyrion y sir, sef y rhannau mwyaf gwasgarog eu poblogaeth? Mewn ymateb, nododd y Prif Weithredwr:-

- Nad oedd am basio barn ynglŷn â chynnwys y sylw gan mai adroddiad er gwybodaeth oedd gerbron o ran newid y Cyfansoddiad, a mater i'r Arweinydd oedd penodi ei Chabinet.
- Fel yr un sy'n arwain staff y Cyngor, ei fod yn nodi'r sylw, ac y gallai sicrhau nad oes yna unrhyw ragfarn ddiarwybod ddaearyddol yn bodoli o safbwynt y staff.

Diolchodd aelod i'r 4 Aelod Cabinet oedd wedi sefyll i lawr yn gynharach yn y tymor hwn ar fater o egwyddor am eu gwasanaeth. Nodwyd bod yr aelodau hynny wedi galw am ymchwiliad cyhoeddus ac adolygiad annibynnol ar y mater, ac y croesawid y ffaith bod hynny'n digwydd rŵan.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 14. NEWIDIADAU CYFANSODDIAD – RHEOLAU GWEITHDREFN CONTRACT NEWYDD (ADRAN 17)

Gosododd y Swyddog Monitro y cyd-destun a chyflwynodd y Cyfreithiwr adroddiad:-

- yn nodi bod y Ddeddf Caffael 2023 a ddaeth i rym ar 24 Chwefror, 2025 yn golygu bod rhaid i'r Cyngor adolygu a diwygio ei reolau caffael mewnol sydd wedi'u cynnwys o fewn y Rheolau Gweithdrefn Contract i adlewyrchu'r newid yn y ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddf.
- yn gofyn i'r Cyngor newid y Cyfansoddiad drwy fabwysiadu'r Rheolau Contract newydd (Adran 17) a ddangosir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau.

Croesawyd y rheoliadau a dymunwyd yn dda i bawb sy'n gweithio yn y maes Caffael.

Nodwyd nad oedd yna lawer o gyfeiriadau yn y Rheoliadau at sgiliau ieithyddol yn yr is-gontractio ac awgrymwyd bod cyfle euraid yn cael ei golli yma. Derbynnid bod yna reolau contractio yn ymwneud â gwahaniaethu, ond roedd y gyfraith yn dweud bod modd blaenoriaethu mewn gwahanol amgylchiadau wrth gyflawni nod cyfreithlon fel hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Gan hynny, cynigiwyd gwelliant i ohirio mabwysiadu'r Rheoliadau hyd oni fydd y Pwyllgor Iaith wedi cael cyfle i graffu hyn. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod hwn yn fater o gydymffurfiaeth â deddfwriaeth sydd mewn llaw bellach, a bod rhaid i'r Cyngor gael rheolau sy'n cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth yma.
- Bod y gwelliant yn ymwneud â pholisi caffael yn hytrach na'r gyfundrefn gyfreithiol, h.y. beth mae'r Cyngor yn ei brynu yn hytrach na sut mae'r Cyngor yn ei brynu.
- O bosib' bod hyn yn fater i'w godi yn y Pwyllgor Iaith o ran sut mae caffael yn adlewyrchu gofynion iaith, ayb.
- Nad oedd hyn yn cau'r drws o ran cynnal adolygiadau pellach yn y dyfodol.

Nododd y Prif Weithredwr fod rhwydd hynt i'r Pwyllgor Iaith edrych ar unrhyw bwnc, ond na fyddai hynny'n newid y penderfyniad.

Holwyd a allai'r swyddogion fod yn ffyddiog bod y polisi'n helpu i gadw'r budd yn lleol, ac ar ba lefel o dendr mae'n gorfod mynd allan ar Gwerthwch i Gymru? Mewn ymateb, nodwyd:-

- Mai hanfod y rheoliadau newydd yw tryloywder, a bellach bod rhaid hysbysebu gwybodaeth am dendrau islaw'r rhiniogau uchel oedd yn bodoli'n flaenorol.
- Bod y dull o fynd at i dendro wedyn yn fater o ddewisiadau, ond fframwaith gyfreithiol ydoedd, ac roedd yna lawer mwy o ofyn ar lefel llawer is o ran ymwybyddiaeth o dendrau a phrosesau caffael hefyd.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Rheolau Gweithdrefn Contract newydd (Adran 17) a ddangosir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cyngor.**

## 15. CALENDR PWYLLGORAU 2025-26

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth galendr ar gyfer dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2025/26.

Ymhellach i gynnwys yr adroddiad, nodwyd yr ymgynghorwyd hefyd â'r Awdurdod Heddlu a'r Awdurdod Tân ac Achub ar fersiwn drafft y calendr pwyllgorau. Derbyniwyd ymateb gan Awdurdod yr Heddlu, ac roedd y swyddogion yn gweithio ar un dyddiad sy'n gwrthdaro. Ni dderbyniwyd ymateb gan yr Awdurdod Tân ac Achub, a byddai'r swyddogion yn mynd ar ôl hynny.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2025/26 yn Atodiad 1 i'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cyngor.**

**16. RHYBUDDION O GYNNIG**

(A) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Elwyn Edwards o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

Mae Cyngor Gwynedd yn gofyn i'r Llywodraeth Lafur yn San Steffan drosglwyddo'r Awdurdodaeth Gyfiawnder i'r Senedd yng Nghaerdydd, ac yn gofyn i holl gynghorau Cymru am eu cefnogaeth.

Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w gynnig, gan nodi:-

- Yn 2017, y sefydlodd y Blaid Lafur gomisiwn i edrych ar y posibilrwydd o drosglwyddo'r cyfrifoldeb am y Gwasanaeth Cyfiawnder yng Nghymru i Lywodraeth Cymru. Arweiniwyd y comisiwn gan yr Arglwydd Thomas o Gwmigedd, cyn brif swyddog dros Gyfiawnder yn Lloegr a Chymru, a'i argymhelliad cadarn i'r llywodraeth oedd bod 'gwir angen datganoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder yng Nghymru i Gymru gan sefydlu awdurdodaeth Gymreig ar wahân.
- Bod gan yr Alban a Gogledd Iwerddon eu system Gyfiawnder eu hunain, ond bod Cymru ynghlwm wrth Loegr, ac mai Cymru yw'r unig wlad yn y byd sydd â deddfwriaeth, ond heb awdurdod i weithredu hyn.
- Er bod yna alw cynyddol dros greu Awdurdodaeth Gymreig ar wahân ac i ddatganoli'r pwerau i Lywodraeth Cymru, ni fu unrhyw symudiad o du'r Llywodraethau Torïaidd na Llafur i wneud hyn.

Nododd y cynigydd ymhellach y dylai fod wedi cynnwys '*a gofyn hefyd i Lywodraeth Cymru am ei chefnogaeth*' fel rhan o'i gynnig.

Cynigiodd aelod arall welliant i'r perwyl hynny. Cydsyniodd y cynigydd a'r eilydd i'r addasiad ac ni fu gwrthwynebiad i hynny o'r llawr.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig wedi'i addasu, sef:-**
**Mae Cyngor Gwynedd yn gofyn i'r Llywodraeth Lafur yn San Steffan drosglwyddo'r Awdurdodaeth Gyfiawnder i'r Senedd yng Nghaerdydd, ac yn gofyn i Lywodraeth Cymru a holl gynghorau Cymru am eu cefnogaeth.**

(B) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

Mae'r Cyngor yn galw ar Lywodraeth San Steffan i ddatganoli grymoedd dros ddarlledu a'r cyfryngau i'r Senedd, ac i Lywodraeth Cymru fynd ymlaen gyda'r gwaith o baratoi a thrafod gyda San Steffan ar y ffordd orau i wireddu hyn.

Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w gynnig, gan nodi:-

- Ei bod wedi dod yn amlwg dros y blynyddoedd diwethaf nad yw Cymru'n cael y darlun llawn pan mae'n dod i drafod y materion sy'n allweddol i ni fel Cenedl, a bod diffyg cael rheolaeth dros y cyfryngau wedi achosi penbleth i bobl y wlad wrth drafod protestiadau, argyfyngau a materion cyffredinol sy'n ein heffeithio ni fel pobl o ddydd i ddydd.

- Bod y cyfnod clo yn ystod Cofid yn enghraifft amlwg o hyn, pan fu'r cyfryngau yn rhannu newyddion nad oedd yn berthnasol i Gymru, gan greu dryswch o ran hawl pobl i groesi ffiniau.
- Y gwelwyd yr un hen stori hefyd wrth i faterion Cymreig gael eu trafod ar y newyddion cenedlaethol a'r papurau; materion sy'n cynnwys datganoli, protest y ffermwyr, y gofal iechyd cenedlaethol, a llu o faterion pwysig, oherwydd prin iawn ydi'r persbectif Cymreig a'r amser sy'n cael ei ddynodi i'r materion yma.
- Ei bod yn destun siom hefyd nad yw darlledu Cymraeg wedi cael yr un cyfle i dyfu â chyfryngau mewn gwledydd tebyg, megis Catalwnia a Gwlad y Basg, sydd ag amryw o sianeli yn eu hieithoedd eu hunain, yn ogystal â sianeli dwyieithog, a sianeli yn y Sbaeneg sydd â phersbectif Catalaneg / Basgeg.
- Heb drafodaeth lawn, glir, gyda phersbectif Cymreig ar y materion allweddol yma, ei bod yn mynd yn anodd deall beth yw'r camau nesaf i'w cymryd, a'n bod, felly, yn tueddu i droi mewn cylchoedd ar bynciau llosg heb wybod beth yw'r ffordd i'w datrys.
- Ei bod yn bwysig bod Llywodraeth San Steffan a Llywodraeth Cymru yn dechrau trafod ar unwaith sut mae modd datganoli darlledu a'r cyfryngau, drwy edrych ar y ffordd i'w ariannu a'i wneud yn gynaliadwy.

Mynegwyd cefnogaeth i'r cynnig gan aelodau eraill, a nodwyd:-

- Y sefydlwyd sianeli teledu / radio yng Ngwlad y Basg a Chatalwnia tua'r un adeg a phan sefydlwyd S4C a Radio Cymru yma yng Nghymru. O ran cyd-destun, roedd gan Wlad y Basg 1 sianel deledu ac 1 sianel radio ar y cychwyn, ond bellach roedd ganddynt 6 sianel deledu a 5 sianel radio. Ar y cychwyn roedd gan Gatalwnia 1 sianel deledu ac 1 sianel radio, ond bellach roedd ganddynt 6 sianel deledu a 3 sianel radio.
- Bod Bil Cyfryngau 2024 Llywodraeth y DU yn disodli'r angen i gynnig darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, ac er i Bwyllgor Diwylliant Senedd Cymru fynegi pryder clir ynglŷn â hynny, ni chafodd y cymal ei warchod. O ganlyniad, daeth dros 20 mlynedd o ddarlledu Cymraeg ar y sianeli masnachol, gan gynnwys Champion, Heart a Capital, i ben ar 24 Chwefror eleni, gan arwain at golli swyddi a chreu bwlch o ran ein diwylliant.
- Y clywyd yn y dyddiau diwethaf nad yw Radio Cymru na BBC Sounds yn mynd i allu darlledu i bobl y tu allan i'r DU oherwydd y newidiadau i ddarpariaeth BBC Sounds. Bydd hyn yn golled enfawr i ddysgwyr Cymraeg ar draws y byd ac i Gymry sy'n byw dramor.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**
**Mae'r Cyngor yn galw ar Lywodraeth San Steffan i ddatganoli grymoedd dros ddarlledu a'r cyfryngau i'r Senedd, ac i Lywodraeth Cymru fynd ymlaen gyda'r gwaith o baratoi a thrafod gyda San Steffan ar y ffordd orau i wireddu hyn.**

## 17. YMATEBION / DIWEDDARIADAU I RYBUDDION O GYNNIG BLAENOROL

Cyflwynwyd – er gwybodaeth:-

(1) Llythyr gan Lywodraeth y DU mewn ymateb i Rybudd o Gynnig y Cynghorydd Meryl Roberts i gyfarfod 3 Hydref, 2024 o'r Cyngor ynglŷn â Thaliadau Tanwydd Gaeaf.

(2) E-bost gan Sian Gwenllian, AS, mewn ymateb i Rybudd o Gynnig y Cynghorydd Elin Walker Jones i gyfarfod 5 Rhagfyr, 2024 o'r Cyngor ynglŷn â sefydlu Ysgol Ddeintyddiaeth ym Mangor.

(3) Llythyr gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i Rybudd o Gynnig y Cynghorydd Rhys Tudur i gyfarfod 5 Rhagfyr, 2024 o'r Cyngor ynglŷn â Threth Trafodion Tir.

(4) Llythyr gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i Rybudd o Gynnig y Cynghorydd John Pughe Roberts i gyfarfod 5 Rhagfyr, 2024 o'r Cyngor ynglŷn â Rhyddhad Eiddo Amaethyddol.

(5) Llythyr gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i Rybudd o Gynnig y Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths i gyfarfod 5 Rhagfyr, 2024 o'r Cyngor ynglŷn â chyfnewid tai cymdeithasol.

(6) Llythyr gan Lywodraeth y DU mewn ymateb i Rybudd o Gynnig y Cynghorydd June Jones i gyfarfod 5 Rhagfyr, 2024 o’r Cyngor ynglŷn â thrwyddedau gyrru graddedig.

Nodwyd hefyd y derbyniwyd negeseuon o gefnogaeth gan Gyngor Tref Trefdraeth a Chyngor Cymuned Bethesda i Rybudd o Gynnig y Cynghorydd Elwyn Edwards i gyfarfod 3 Hydref, 2024 o’r Cyngor yn galw am ddynodi Dydd Gŵyl Dewi yn wyliau cenedlaethol swyddogol yng Nghymru.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.30yp a daeth i ben am 4.35yp.

___________________________________

**CADEIRYDD**

**Treth Cyngor: Cyngor Gwynedd + Cyngor Cymuned**
**Council Tax : Cyngor Gwynedd + Community Council**

| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 1,290.42 | 1,505.49 | 1,720.56 | 1,935.63 | 2,365.77 | 2,795.91 | 3,226.05 | 3,871.26 | 4,516.47 |
| Aberdyfi | 1,297.07 | 1,513.25 | 1,729.43 | 1,945.61 | 2,377.97 | 2,810.33 | 3,242.68 | 3,891.22 | 4,539.76 |
| Abergwyngregyn | 1,296.27 | 1,512.32 | 1,728.36 | 1,944.41 | 2,376.50 | 2,808.59 | 3,240.68 | 3,888.82 | 4,536.96 |
| Abermaw (Barmouth) | 1,306.77 | 1,524.57 | 1,742.36 | 1,960.16 | 2,395.75 | 2,831.34 | 3,266.93 | 3,920.32 | 4,573.71 |
| Arthog | 1,286.03 | 1,500.37 | 1,714.71 | 1,929.05 | 2,357.73 | 2,786.41 | 3,215.08 | 3,858.10 | 4,501.12 |
| Y Bala | 1,294.87 | 1,510.68 | 1,726.49 | 1,942.30 | 2,373.92 | 2,805.54 | 3,237.17 | 3,884.60 | 4,532.03 |
| Bangor | 1,366.10 | 1,593.78 | 1,821.47 | 2,049.15 | 2,504.52 | 2,959.88 | 3,415.25 | 4,098.30 | 4,781.35 |
| Beddgelert | 1,298.68 | 1,515.13 | 1,731.57 | 1,948.02 | 2,380.91 | 2,813.81 | 3,246.70 | 3,896.04 | 4,545.38 |
| Betws Garmon | 1,286.02 | 1,500.36 | 1,714.69 | 1,929.03 | 2,357.70 | 2,786.38 | 3,215.05 | 3,858.06 | 4,501.07 |
| Bethesda | 1,314.09 | 1,533.11 | 1,752.12 | 1,971.14 | 2,409.17 | 2,847.20 | 3,285.23 | 3,942.28 | 4,599.33 |
| Bontnewydd | 1,298.29 | 1,514.67 | 1,731.05 | 1,947.43 | 2,380.19 | 2,812.95 | 3,245.72 | 3,894.86 | 4,544.00 |
| Botwnnog | 1,280.61 | 1,494.05 | 1,707.48 | 1,920.92 | 2,347.79 | 2,774.66 | 3,201.53 | 3,841.84 | 4,482.15 |
| Brithdir & Llanfachreth | 1,288.53 | 1,503.28 | 1,718.04 | 1,932.79 | 2,362.30 | 2,791.81 | 3,221.32 | 3,865.58 | 4,509.84 |
| Bryncrug | 1,296.70 | 1,512.82 | 1,728.93 | 1,945.05 | 2,377.28 | 2,809.52 | 3,241.75 | 3,890.10 | 4,538.45 |
| Buan | 1,283.91 | 1,497.89 | 1,711.88 | 1,925.86 | 2,353.83 | 2,781.80 | 3,209.77 | 3,851.72 | 4,493.67 |
| Caernarfon | 1,348.63 | 1,573.40 | 1,798.17 | 2,022.94 | 2,472.48 | 2,922.02 | 3,371.57 | 4,045.88 | 4,720.19 |
| Clynnog Fawr | 1,319.29 | 1,539.18 | 1,759.06 | 1,978.94 | 2,418.70 | 2,858.47 | 3,298.23 | 3,957.88 | 4,617.53 |
| Corris | 1,311.29 | 1,529.83 | 1,748.38 | 1,966.93 | 2,404.03 | 2,841.12 | 3,278.22 | 3,933.86 | 4,589.50 |
| Criccieth | 1,310.99 | 1,529.49 | 1,747.99 | 1,966.49 | 2,403.49 | 2,840.49 | 3,277.48 | 3,932.98 | 4,588.48 |
| Dolbenmaen | 1,290.04 | 1,505.05 | 1,720.05 | 1,935.06 | 2,365.07 | 2,795.09 | 3,225.10 | 3,870.12 | 4,515.14 |
| Dolgellau | 1,310.69 | 1,529.14 | 1,747.59 | 1,966.04 | 2,402.94 | 2,839.84 | 3,276.73 | 3,932.08 | 4,587.43 |
| Dyffryn Ardudwy | 1,313.61 | 1,532.55 | 1,751.48 | 1,970.42 | 2,408.29 | 2,846.16 | 3,284.03 | 3,940.84 | 4,597.65 |
| Y Felinheli | 1,300.85 | 1,517.65 | 1,734.46 | 1,951.27 | 2,384.89 | 2,818.50 | 3,252.12 | 3,902.54 | 4,552.96 |
| Ffestiniog | 1,362.13 | 1,589.15 | 1,816.17 | 2,043.19 | 2,497.23 | 2,951.27 | 3,405.32 | 4,086.38 | 4,767.44 |
| Y Ganllwyd | 1,296.28 | 1,512.33 | 1,728.37 | 1,944.42 | 2,376.51 | 2,808.61 | 3,240.70 | 3,888.84 | 4,536.98 |
| Harlech | 1,336.73 | 1,559.52 | 1,782.31 | 2,005.10 | 2,450.68 | 2,896.26 | 3,341.83 | 4,010.20 | 4,678.57 |
| Trefor & Llanaelhaearn | 1,306.69 | 1,524.48 | 1,742.26 | 1,960.04 | 2,395.60 | 2,831.17 | 3,266.73 | 3,920.08 | 4,573.43 |
| Llanbedr | 1,325.38 | 1,546.28 | 1,767.17 | 1,988.07 | 2,429.86 | 2,871.66 | 3,313.45 | 3,976.14 | 4,638.83 |
| Llanbedrog | 1,294.33 | 1,510.05 | 1,725.77 | 1,941.49 | 2,372.93 | 2,804.37 | 3,235.82 | 3,882.98 | 4,530.14 |
| Llanberis | 1,305.38 | 1,522.94 | 1,740.51 | 1,958.07 | 2,393.20 | 2,828.32 | 3,263.45 | 3,916.14 | 4,568.83 |
| Llandwrog | 1,322.49 | 1,542.90 | 1,763.32 | 1,983.73 | 2,424.56 | 2,865.39 | 3,306.22 | 3,967.46 | 4,628.70 |
| Llandygai | 1,296.64 | 1,512.75 | 1,728.85 | 1,944.96 | 2,377.17 | 2,809.39 | 3,241.60 | 3,889.92 | 4,538.24 |
| Llanddeiniolen | 1,282.51 | 1,496.26 | 1,710.01 | 1,923.76 | 2,351.26 | 2,778.76 | 3,206.27 | 3,847.52 | 4,488.77 |
| Llandderfel | 1,290.57 | 1,505.66 | 1,720.76 | 1,935.85 | 2,366.04 | 2,796.23 | 3,226.42 | 3,871.70 | 4,516.98 |
| Llanegryn | 1,301.60 | 1,518.53 | 1,735.47 | 1,952.40 | 2,386.27 | 2,820.13 | 3,254.00 | 3,904.80 | 4,555.60 |
| Llanelltyd | 1,297.45 | 1,513.70 | 1,729.94 | 1,946.18 | 2,378.66 | 2,811.15 | 3,243.63 | 3,892.36 | 4,541.09 |
| Llanengan | 1,287.41 | 1,501.97 | 1,716.54 | 1,931.11 | 2,360.25 | 2,789.38 | 3,218.52 | 3,862.22 | 4,505.92 |
| Llanfair | 1,304.75 | 1,522.20 | 1,739.66 | 1,957.12 | 2,392.04 | 2,826.95 | 3,261.87 | 3,914.24 | 4,566.61 |
| Llanfihangel y Pennant | 1,305.03 | 1,522.53 | 1,740.04 | 1,957.54 | 2,392.55 | 2,827.56 | 3,262.57 | 3,915.08 | 4,567.59 |
| Llanfrothen | 1,307.61 | 1,525.55 | 1,743.48 | 1,961.42 | 2,397.29 | 2,833.16 | 3,269.03 | 3,922.84 | 4,576.65 |
| Llangelynnin | 1,291.47 | 1,506.71 | 1,721.96 | 1,937.20 | 2,367.69 | 2,798.18 | 3,228.67 | 3,874.40 | 4,520.13 |
| Llangywer | 1,292.60 | 1,508.03 | 1,723.47 | 1,938.90 | 2,369.77 | 2,800.63 | 3,231.50 | 3,877.80 | 4,524.10 |
| Llanllechid | 1,302.55 | 1,519.64 | 1,736.73 | 1,953.82 | 2,388.00 | 2,822.18 | 3,256.37 | 3,907.64 | 4,558.91 |
| Llanllyfni | 1,295.67 | 1,511.62 | 1,727.56 | 1,943.51 | 2,375.40 | 2,807.29 | 3,239.18 | 3,887.02 | 4,534.86 |
| Llannor | 1,286.37 | 1,500.77 | 1,715.16 | 1,929.56 | 2,358.35 | 2,787.14 | 3,215.93 | 3,859.12 | 4,502.31 |
| Llanrug | 1,329.42 | 1,550.99 | 1,772.56 | 1,994.13 | 2,437.27 | 2,880.41 | 3,323.55 | 3,988.26 | 4,652.97 |
| Llanuwchllyn | 1,305.13 | 1,522.65 | 1,740.17 | 1,957.69 | 2,392.73 | 2,827.77 | 3,262.82 | 3,915.38 | 4,567.94 |
| Llanwnda | 1,297.40 | 1,513.63 | 1,729.87 | 1,946.10 | 2,378.57 | 2,811.03 | 3,243.50 | 3,892.20 | 4,540.90 |
| Llanycil | 1,286.47 | 1,500.89 | 1,715.30 | 1,929.71 | 2,358.53 | 2,787.36 | 3,216.18 | 3,859.42 | 4,502.66 |
| Llanystumdwy | 1,286.24 | 1,500.61 | 1,714.99 | 1,929.36 | 2,358.11 | 2,786.85 | 3,215.60 | 3,858.72 | 4,501.84 |
| Maentwrog | 1,285.99 | 1,500.33 | 1,714.66 | 1,928.99 | 2,357.65 | 2,786.32 | 3,214.98 | 3,857.98 | 4,500.98 |
| Mawddwy | 1,294.74 | 1,510.53 | 1,726.32 | 1,942.11 | 2,373.69 | 2,805.27 | 3,236.85 | 3,884.22 | 4,531.59 |
| Nefyn | 1,309.00 | 1,527.17 | 1,745.33 | 1,963.50 | 2,399.83 | 2,836.17 | 3,272.50 | 3,927.00 | 4,581.50 |
| Pennal | 1,321.97 | 1,542.29 | 1,762.62 | 1,982.95 | 2,423.61 | 2,864.26 | 3,304.92 | 3,965.90 | 4,626.88 |
| Penrhyndeudraeth | 1,352.43 | 1,577.84 | 1,803.24 | 2,028.65 | 2,479.46 | 2,930.27 | 3,381.08 | 4,057.30 | 4,733.52 |
| Pentir | 1,299.64 | 1,516.25 | 1,732.85 | 1,949.46 | 2,382.67 | 2,815.89 | 3,249.10 | 3,898.92 | 4,548.74 |
| Pistyll | 1,298.46 | 1,514.87 | 1,731.28 | 1,947.69 | 2,380.51 | 2,813.33 | 3,246.15 | 3,895.38 | 4,544.61 |
| Porthmadog | 1,292.97 | 1,508.47 | 1,723.96 | 1,939.46 | 2,370.45 | 2,801.44 | 3,232.43 | 3,878.92 | 4,525.41 |
| Pwllheli | 1,318.09 | 1,537.78 | 1,757.46 | 1,977.14 | 2,416.50 | 2,855.87 | 3,295.23 | 3,954.28 | 4,613.33 |
| Talsarnau | 1,333.69 | 1,555.97 | 1,778.25 | 2,000.53 | 2,445.09 | 2,889.65 | 3,334.22 | 4,001.06 | 4,667.90 |
| Trawsfynydd | 1,296.87 | 1,513.01 | 1,729.16 | 1,945.30 | 2,377.59 | 2,809.88 | 3,242.17 | 3,890.60 | 4,539.03 |
| Tudweiliog | 1,284.47 | 1,498.55 | 1,712.63 | 1,926.71 | 2,354.87 | 2,783.03 | 3,211.18 | 3,853.42 | 4,495.66 |
| Tywyn | 1,311.05 | 1,529.55 | 1,748.06 | 1,966.57 | 2,403.59 | 2,840.60 | 3,277.62 | 3,933.14 | 4,588.66 |
| Waunfawr | 1,285.10 | 1,499.28 | 1,713.47 | 1,927.65 | 2,356.02 | 2,784.38 | 3,212.75 | 3,855.30 | 4,497.85 |

**Treth Cyngor: Cyngor Gwynedd + Cyngor Cymuned + Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**
**Council Tax : Cyngor Gwynedd + Community Council + North Wales Police and Crime Commissioner**

| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 1,538.52 | 1,794.94 | 2,051.36 | 2,307.78 | 2,820.62 | 3,333.46 | 3,846.30 | 4,615.56 | 5,384.82 |
| Aberdyfi | 1,545.17 | 1,802.70 | 2,060.23 | 2,317.76 | 2,832.82 | 3,347.88 | 3,862.93 | 4,635.52 | 5,408.11 |
| Abergwyngregyn | 1,544.37 | 1,801.77 | 2,059.16 | 2,316.56 | 2,831.35 | 3,346.14 | 3,860.93 | 4,633.12 | 5,405.31 |
| Abermaw (Barmouth) | 1,554.87 | 1,814.02 | 2,073.16 | 2,332.31 | 2,850.60 | 3,368.89 | 3,887.18 | 4,664.62 | 5,442.06 |
| Arthog | 1,534.13 | 1,789.82 | 2,045.51 | 2,301.20 | 2,812.58 | 3,323.96 | 3,835.33 | 4,602.40 | 5,369.47 |
| Bala | 1,542.97 | 1,800.13 | 2,057.29 | 2,314.45 | 2,828.77 | 3,343.09 | 3,857.42 | 4,628.90 | 5,400.38 |
| Bangor | 1,614.20 | 1,883.23 | 2,152.27 | 2,421.30 | 2,959.37 | 3,497.43 | 4,035.50 | 4,842.60 | 5,649.70 |
| Beddgelert | 1,546.78 | 1,804.58 | 2,062.37 | 2,320.17 | 2,835.76 | 3,351.36 | 3,866.95 | 4,640.34 | 5,413.73 |
| Betws Garmon | 1,534.12 | 1,789.81 | 2,045.49 | 2,301.18 | 2,812.55 | 3,323.93 | 3,835.30 | 4,602.36 | 5,369.42 |
| Bethesda | 1,562.19 | 1,822.56 | 2,082.92 | 2,343.29 | 2,864.02 | 3,384.75 | 3,905.48 | 4,686.58 | 5,467.68 |
| Bontnewydd | 1,546.39 | 1,804.12 | 2,061.85 | 2,319.58 | 2,835.04 | 3,350.50 | 3,865.97 | 4,639.16 | 5,412.35 |
